WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Cyf: 420A2010**
Llun trwy garedigrwydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.
Arweiniwyd Tîm Asesu Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub De Cymru gan Lisa Williams (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae'r Awdurdod wedi gwella tryloywder ac effeithiolrwydd ei ddull o sicrhau gwelliant 6

Cyn 2008 roedd trefniadau'r Awdurdod yn draddodiadol gyda rhai gwendidau allweddol yn arbennig o ran llywodraethu 6

Mae arweinyddiaeth agored drwy gonsensws wedi arwain at welliant sylweddol gyda ffocws cryfach ar gynllunio strategol a phrosesau busnes effeithiol 7

Mae trefniadau'r Awdurdod yn llwyfan da i wella gwasanaethau 7

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella 8

Mae defnydd da o adnoddau a gwybodaeth briodol yn cefnogi dull gweithredu strategol clir ac arweinyddiaeth effeithiol 8

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol, gan sicrhau bod ei ddewisiadau strategol yn cael eu llywio gan wybodaeth reoli gywir ac amserol 8

Mae aelodau ac uwch swyddogion yn rhoi arweinyddiaeth glir a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi gwelliant ond gellid gwella atebolrwydd cyhoeddus 9

Mae cydweithio wedi'i ddatblygu'n dda ond mae Partneriaethau yn rhoi pwysau sylweddol ar allu ac adnoddau nad ydynt wedi'u gwerthuso'n llawn eto o ran canlyniadau i'r gymuned 10

Er bod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â natur ei weithlu yn y dyfodol, mae heriau i sicrhau bod staff yn deall y rhaglen newid sefydliadol a gynllunnir a'u bod yn rhan o'r broses o'i gweithredu 11

# Crynodeb

1 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, sef cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni:

- Asesiad Corfforaethol – sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo.

3 Y nod yw gallu cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob awdurdod mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn ffurfio sail adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig, a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r asesiad corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn ddiweddariad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nodwyd yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, sef Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd effaith bosibl gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, dywedodd CLILC nad oedd modd dianc rhag y ffaith y byddai angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio ei gwariant cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir ac na ellir datrys y diffyg drwy effeithlonrwydd yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau tân ac achub gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a sut y cânt eu darparu, gan ystyried dewisiadau ar gyfer cynyddu lefelau caffael yn hytrach na darparu gwasanaethau a chydweithio. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol yn unig, ac mae wedi'i lunio i ateb y cwestiwn:

‘A yw trefniadau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'



7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn, mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod i roi diweddariad yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol, i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau corfforaethol cadarn ar waith sy'n sail gadarn i wella perfformiad.

9 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd yr Awdurdod dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- bod yr Awdurdod wedi gwella tryloywder ac effeithiolrwydd ei ddull o sicrhau gwelliant; a
- bod defnydd da o adnoddau a gwybodaeth briodol yn cefnogi dull gweithredu strategol clir ac arweinyddiaeth effeithiol.

## Arolygiad arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Awdurdod o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Awdurdod o dan adran 19 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Meysydd i'w gwella

12 Mae'r asesiad wedi nodi'r meysydd canlynol lle yr argymhellwn y dylai'r Awdurdod weithredu.

**Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella**

Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

C1 Gwella atebolrwydd cyhoeddus ac ymgysylltu drwy:
- rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am ei ddull gweithredu fel agendâu a chofnodion cyfarfodydd allweddol; ac
- ystyried ei broses ymgysylltu ac ymgynghori i annog cyfranogiad ehangach e.e. Facebook a Twitter

C2 Ceisio ehangu amrywiaeth ei weithlu drwy werthuso'n llawn effaith y mentrau a gynhaliwyd hyd yn hyn i gyflawni targedau cysylltiedig.

C3 Nodi sut y gellir defnyddio'r Adolygiad Datblygu Perfformiad yn fwy cyson ym mhob rhan o'r sefydliad.

C4 Datblygu ymhellach ei ddull o ymgysylltu â'r gweithlu.

# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â gwelliant dros amser

## Mae'r Awdurdod wedi gwella tryloywder ac effeithiolrwydd ei ddull o sicrhau gwelliant

### Cyn 2008 roedd trefniadau'r Awdurdod yn draddodiadol gyda rhai gwendidau allweddol yn arbennig o ran llywodraethu

13 Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad, ar ôl i'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân gael ei ddatganoli yn 2004, nodi ei gweledigaeth yn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru, gan nodi y dylai'r awdurdodau:

- geisio gwneud cymunedau'n fwy diogel a, thrwy wneud hynny, weithio yng nghanol y cymunedau gyda phroses dryloyw o wneud penderfyniadau sy'n cynnwys y cymunedau;
- gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd, gwasanaethau brys eraill, partneriaid eraill a'r gymuned, gan ddarparu gwasanaethau cydlynol sy'n gwneud y gorau o adnoddau'r Awdurdod ac adnoddau sefydliadau partner;
- cydnabod yr effaith y gallant ei chael ar yr amgylchedd (naturiol ac adeiledig) a phatrwm cymdeithasol cymdeithas - cyfrannu at gyflawni amcanion Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â chynaliadwyedd drwy weithgareddau gweithredol, camau ataliol a thrwy archwilio'r effaith ar eu sefydliadau eu hunain; a
- chydnabod amrywiaeth yn eu cymunedau a sicrhau bod eu staff yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwn yn y gymuned a'u bod yn gallu cyrraedd eu potensial llawn drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

14 Mae'r tîm arwain wedi ymateb i'r heriau hyn a, thrwy ei Gynlluniau Lleihau Risg a'i Gynlluniau Gwella, mae wedi sefydlu gwasanaeth sy'n ceisio cydbwyso ei gyfrifoldebau o ran ymateb i ddigwyddiadau brys â rhaglen lawn o weithgareddau ataliol.

15 Newidiodd etholiadau llywodraeth leol 2008 gyfansoddiad gwleidyddol yr Awdurdod. Un o'i dasgau cyntaf oedd penodi Prif Swyddog Tân newydd. Dilynwyd hyn gan ailstrwythuro'r uwch reolwyr a arweiniodd at uwch dîm llai â rolau a chyfrifoldebau mwy eglur. Hefyd, symudodd y sefydliad i'w Bencadlys newydd ar ddechrau 2009.

16 Ers 2008 mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu trefniadau llywodraethu yn systemataidd drwy raglen sy'n cynnwys: adolygu trefniadau cyfansoddiadol; diwygio rheolau sefydlog; mabwysiadu arfer da a amlinellir yn Neddf 2000; a gweithredu'r argymhelliad a wnaed yn ein Hadolygiad Craffu yn 2008.

17 Ar 29 Medi 2009 cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio amodol ar Ddatganiadau Ariannol 2008-09. Deilliodd y farn amodol o anghytundeb yn 2007-08 ynghylch y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer balansau cronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod a'r rhai a glustnodwyd. Mae'r anghytundeb hwnnw bellach wedi'i ddatrys gan ddiwygiad i'r Gorchymyn Cyfuno ar gyfer yr



Awdurdod, sy'n ei gwneud yn glir y gall yr Awdurdod gadw cronfeydd wrth gefn.

18 Ym mis Hydref 2009, cyhoeddodd Archwilydd Penodedig a Rheolwr Cydberthynas yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau Ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad yr Awdurdod. Fei'i cyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ar 14 Rhagfyr 2009 a chadarnhawyd, er bod y Datganiad Cyfrifon yn amodol, fod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09.

19 Nodwyd mai'r materion allweddol a wynebai'r Awdurdod ar yr adeg hon oedd iddo sicrhau ei fod yn parhau i wneud gwelliannau o ran gostwng lefelau'r risg weithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid a'r Asesiad Risg ar y Cyd diwethaf.

## Mae arweinyddiaeth agored drwy gonsensws wedi arwain at welliant sylweddol gyda ffocws cryfach ar gynllunio strategol a phrosesau busnes effeithiol

20 Mae'r Awdurdod a'i uwch dîm rheoli wedi mabwysiadu dull rheoli agored drwy gonsensws ac wedi meithrin cydberthnasau gwaith da. Maent yn cydnabod, mewn hinsawdd ariannol ansicr, fod yr angen am waith cynllunio strategol cynhwysfawr yn hanfodol. Y Cynllun Lleihau Risg blynyddol yw'r ddogfen gynllunio allweddol a baratowyd yn dilyn dadansoddiad o wybodaeth a thueddiadau ystadegol sy'n bwysig yn lleol ac mae'n gyson â gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau tân ac achub. Mae'n amlygu saith maes â blaenoriaeth ar gyfer 2010-11. Cafodd barn staff, cyrff cynrychioli, trigolion, cynghorau cymuned a grwpiau diddordeb lleol ei cheisio fel rhan o broses ymgynghori'r Cynllun Lleihau Risg.

21 Ategir y Cynllun Lleihau Risg drafft ar gyfer 2011-12 gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (2010-2014), y Cynllun Rheoli Asedau a'r Strategaeth Pobl. Nod y fframwaith cynllunio strategol hwn yw sicrhau'r lefel uchaf posibl o adnoddau gan gefnogi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod ac mae'n sail i gynlluniau busnes gweithredol.

## Mae trefniadau'r Awdurdod yn llwyfan da i wella gwasanaethau

22 Drwy ei brosesau rheoli risg a chynllunio busnes mae'r Awdurdod wedi nodi'r gwelliannau y mae am eu gwneud ac mae'n cydnabod yr heriau ariannol a gweithredol y mae'n eu hwynebu mewn perthynas â'u cyflawni.

23 Mae'r Awdurdod wedi dangos ei fod yn gallu gwneud (a chefnogi) y penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud i gyflawni ei agenda wella. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- newidiadau diweddar i drefniadau staff mewn rhai gorsafoedd;
- defnydd arloesol o drefniadau cydweithio i gyfleu negeseuon diogelwch cymunedol fel menter 'Bernie'r Ddafad';
- system ar ddyletswydd yn ôl galw â chyflog;
- mentrau cydweithredol gyda gwasanaethau tân ac achub a sefydliadau eraill yng Nghymru (fel caffael dillad a chyfarpar tân newydd; ystafelloedd rheoli tân cydlynol; a darpariaeth iechyd galwedigaethol gydweithredol);
- rhesymoli'r ystâd (fel New Inn, Canol Caerdydd a Neuadd Llanelái); a
- symud i Bencadlys newydd.

# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella

## Mae defnydd da o adnoddau a gwybodaeth briodol yn cefnogi dull gweithredu strategol clir ac arweinyddiaeth effeithiol

### Mae'r Awdurdod yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol, gan sicrhau bod ei ddewisiadau strategol yn cael eu llywio gan wybodaeth reoli gywir ac amserol

**24** Mae archwiliadau blaenorol wedi cadarnhau bod gan yr Awdurdod drefniadau cynllunio ariannol ar waith. Er bod yr Awdurdod bellach yn gweithredu o'i bencadlys newydd, mae gwerthu safle Neuadd Llanelái yn yr hinsawdd economaidd gyfredol a'r hinsawdd a ragwelir yn y dyfodol yn parhau i fod yn her ac yn risg ariannol.

**25** Gwnaed llawer o waith eleni i baratoi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Pobl a'r Cynllun Rheoli Asedau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson a bod y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2011-12 yn cael ei ddeall. Wrth ystyried y cynigion hyn defnyddiodd yr Awdurdod y cynlluniau hyn i lywio'r broses gwneud penderfyniadau hefyd.

**26** Rydym wedi bwriadu adolygu'r ffordd y mae trefniadau rheoli adnoddau, yn arbennig cyllidebu a chynllunio ariannol, yn cefnogi gwelliant yn ystod haf 2010 a chaiff y casgliadau eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

**27** Daeth ein hadolygiad o drefniadau rheoli adeiladau yn 2009 i'r casgliad bod gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i gefnogi datblygiadau o ran effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr yn yr 21ain ganrif. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn ddogfen strategol allweddol ac mae'r gweithgor rheoli asedau a sefydlwyd yn ddiweddar (drwy uno'r grwpiau rheoli ystad a rheoli fflyd) yn goruchwylio'r maes gwaith hwn gan gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio Ariannol a Rheoli Perfformiad ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli Asedau a digonoldeb y cynllun hwnnw.

**28** Daeth ein hadolygiad o reoli fflyd yn 2008 i'r casgliad 'bod dull yr Awdurdod o reoli'r fflyd yn gwneud defnydd priodol o adnoddau i gefnogi gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau'. Nododd hefyd fod lle i wella drwy ddiweddaru'r Adolygiad o Berfformiad a'r Cynllun Gwella, defnyddio dangosyddion perfformiad, ymchwilio i gyfleoedd i brynu ar y cyd â chyrff eraill a nodi'n ffurfiol ei strategaeth rheoli fflyd er mewn ei chyfleu i bob aelod o staff. Datblygwyd yr argymhellion hyn gan y grŵp rheoli fflyd a bellach fe'u hymgorfforwyd yn y Gweithgor Rheoli Asedau.

**29** Mae gan yr Awdurdod gyfres o bolisïau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, yr iaith Gymraeg, a chyfrannu at Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

**30** Mae system rheoli perfformiad gynhwysfawr sydd wedi hen ymsefydlu yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Awdurdod i gofnodi ac olrhain ei



berfformiad. Caiff adroddiadau rheolaidd sy'n rhoi cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau a chynnydd o ran rhoi argymhellion ar waith o archwiliadau ac adroddiadau archwilio eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio Ariannol a Rheoli Perfformiad.

31 Mae staff yn cydnabod eu bod yn atebol am eu perfformiad drwy gyfres o brosesau rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys proses drosglwyddo briodol i reolwyr ar lefel uwch i ddelio â pherfformiad gwael pan fo angen.

32 Mae systemau rheoli prosiect yn gryf ac mae rolau a chyfrifoldebau clir o fewn y strwythur rheoli diwygiedig. Mae methodoleg rheoli prosiect Prince 2 wedi'i mabwysiadu ar gyfer pob prosiect mawr, ac mae'r rhan fwyaf o uwch reolwyr wedi'u hyfforddi i reoli prosiectau. Mae gan bob Cynllun Lleihau Risg Reolwr Prosiect a enwir. Mae Bwrdd Prosiect, sy'n cynnwys aelodau o'r uwch dîm rheoli, yn monitro cerrig milltir allweddol.

## Mae aelodau ac uwch swyddogion yn rhoi arweinyddiaeth glir a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi gwelliant ond gellid gwella atebolrwydd cyhoeddus

33 Ceir cydberthnasau gwaith da rhwng uwch swyddogion ac aelodau'r Awdurdod, ac mae dealltwriaeth well o rolau ei gilydd wedi cyfrannu at hyn. Mae rhoi rhagor o wybodaeth i aelodau'r Awdurdod am waith is-bwyllgorau wedi atgyfnerthu'r rolau a'r cyfrifoldebau ac wedi gwella dealltwriaeth aelodau o'r dogfennau cyfansoddiadol diwygiedig canlynol:

- rheolau sefydlog gweithdrefnol, cyffredinol a chontract;
- cynllun dirprwyo a rheoliadau ariannol;
- strwythurau pwyllgor a gweithgor diwygiedig; a
- chylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor sy'n gydnaws â'r blaenoriaethau a'r dogfennau corfforaethol allweddol.

34 Cafwyd anghytundeb yn ddiweddar a arweiniodd at rai cyfarfodydd nad oeddent o bosibl yn gynrychioliadol, a allai effeithio ar atebolrwydd democrataidd penderfyniadau i'r cynghorau cyfansoddol. Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos ag aelodau i unioni'r sefyllfa hon.

35 Mae'r Awdurdod yn gwybod yr hyn y mae am ei gyflawni ac mae wedi ei nodi yn ei Gynllun Lleihau Risg cyfredol a dogfennau corfforaethol allweddol eraill. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio dyletswyddau, nodau a gwerthoedd craidd, ac yn amlinellu'r dulliau gweithredu eang y mae'n bwriadu eu mabwysiadu. Mae amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys perfformiad yn y gorffennol, dysgu cenedlaethol, gwybodaeth leol ac asesiad realistig o gyfyngiadau cyllidebol wedi cyfrannu at lunio'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2010-11:

- Diogelwch Tân Deddfwriaethol
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Gwella effeithiolrwydd ymateb brys
- Gwella diogelwch diffoddwyr tân
- Cadernid a chynllunio
- Effeithlonrwydd sefydliadol
- Strategaeth Dysgu a Datblygu.

**36** Mae aelodau ac uwch swyddogion yn gweithio'n agos i baratoi'r Cynllun Lleihau Risg ac eleni anogwyd mwy o gyfranogiad gan aelodau drwy weithdy diwrnod i aelodau, cyn i'r Awdurdod ei ystyried. Mae'r Cynllun Lleihau Risg arfaethedig ar gyfer 2011-12, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, wedi myfyrio ar y pwysau ariannol a gweithredol a wynebir ar hyn o bryd a pha mor dda y mae'n gweithredu camau'r Cynllun Lleihau Risg blaenorol wrth benderfynu ar ei naw prosiect ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**37** Er ei fod wedi defnyddio ystod o sianeli ymgynghori yn y gorffennol, gan gynnwys staff, aelodau, partneriaid a'r cyhoedd, mae'r Awdurdod wedi cydnabod y gellir atgyfnerthu ei ddull o ymgysylltu a chyfathrebu fel y gellir cael adborth mwy ystyrlon. Yn hanesyddol, defnyddiwyd cyfarfodydd ymwybyddiaeth gyhoeddus yn ogystal â 'sioeau teithiol' mewnol i staff ond prin y defnyddir prosesau TG fel Twitter Facebook fel ffordd o gael adborth ac ymgysylltu (defnyddiwyd Facebook fel rhan o ymgyrchoedd diogelwch cymunedol penodol).

**38** Mae gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Lleihau Risg blynyddol yn sail i'r cynlluniau cyfarwyddiaeth, gorsaf ac adrannol manwl, ac mae staff yn rhan o'r broses o'u paratoi. Mae staff o'r farn bod y cynlluniau gorsaf yn adlewyrchu'r gweithgareddau gwella sy'n berthnasol ar lefel leol, y gallant ddylanwadu ar yr hyn sydd yn eu cynllun a'u bod yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ohonynt.

**39** Mae aelodau'n cyflawni eu rôl gyda chymorth tîm cymorth busnes bach sy'n darparu neu'n cydgysylltu ystod o weithgareddau cymorth i aelodau. Mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at yr achrediad Efydd o dan Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Awdurdodau Tân CLILC a chynhelir ei asesiad ar 15 Medi 2010.

**40** Mae trefniadau craffu yn gwella; mae gan yr Awdurdod Tân a'r holl bwyllgorau a gweithgorau flaengynllun gwaith i sicrhau bod yr holl gamau corfforaethol allweddol yn cael eu monitro ar gyfer eu gweithredu ac y creffir ar ganlyniadau.

**41** Er bod argaeledd gwybodaeth i ategu'r broses o wneud penderfyniadau o fewn yr Awdurdod wedi gwella, ychydig iawn o'r wybodaeth hon sydd ar gael i'r cyhoedd. Nid yw gwefan yr Awdurdod yn rhoi fawr o wybodaeth, yn arbennig o ran agendâu a chofnodion, ac o ganlyniad gellid gwella atebolrwydd cyhoeddus i hyrwyddo ffordd fwy agored a thryloyw o weithredu.

## Mae cydweithio wedi'i ddatblygu'n dda ond mae partneriaethau yn rhoi pwysau sylweddol ar allu ac adnoddau nad ydynt wedi'u gwerthuso'n llawn eto o ran canlyniadau i'r gymuned

**42** Mae gan yr Awdurdod hanes o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gydweithredol ac mae llawer o enghreifftiau o hyn gan gynnwys:

- Canolfan Jasmine gyda Chyngor Caerdydd;
- mae sawl gorsaf yn rhannu adeilad â sefydliadau allanol (er enghraifft y Barri gyda Phartneriaeth Bro Ddiogelach, yn Llanilltud Fawr gyda Gwylwyr y Glannau a Chaerffili gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans). Mae cynlluniau ar y gweill i rannu mwy o gyfleusterau, neu mae hynny'n cael ei ystyried, er enghraifft gwasanaeth yr Heddlu a'r gwasanaeth Ambiwlans yng ngorsaf Llanilltud Fawr (fel bod pedwar gwasanaeth ar yr un safle), gwylwyr y glannau yng ngorsaf Porthcawl a Gwasanaethau Ambiwlans ar sawl safle ychwanegol gan gynnwys Trefynwy a Bargoed;



- cydfentrau â chynghorau, fel data eiddo digidol, Rhaglen y Ddraig ac uned iechyd galwedigaethol ar y cyd â Chyngor Caerdydd; ac
- mae trefniadau gweithio gyda'r heddlu wedi gwella drwy ymgyrch 'Bernie'r Ddafad' i fynd i'r afael â thân gwair a thanau gwyllt.

**43** Mae strwythurau ac amgylcheddau ariannol cymhleth yn ychwanegu at yr her o weithio gyda 10 o gynghorau. Mae'n debygol y bydd y gallu i fynd i'r afael â'r gweithgaredd hwn o dan ragor o bwysau pan gaiff yr agweddau cynllunio cymunedol ar Fesur Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad eu rhoi ar waith.

**44** Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen cynnal adolygiad beirniadol o'r canlyniadau a gafwyd o'i waith partneriaeth wrth i gyfyngiadau ariannol llymach effeithio ar y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gweithgaredd hwn.

## Er bod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â natur ei weithlu yn y dyfodol, mae heriau i sicrhau bod staff yn deall y rhaglen newid sefydliadol a gynllunnir a'u bod yn rhan o'r broses o'i gweithredu

**45** Mae gan yr Awdurdod nifer o bolisïau Adnoddau Dynol ar waith, ac mae wedi ymgorffori nodau ehangach Strategaeth Adnoddau Dynol Cymru gyfan yn ei holl amcanion cynllunio busnes lleol. Mae'n parhau i gydweithio ag awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru, o ran llunio polisïau a'u rhoi ar waith, a thrwy gydweithio i recriwtio ar y cyd a gweithredu gweithdrefnau Canolfan Datblygu Asesiadau Cymru gyfan.

**46** Mae gan yr Awdurdod ystod dda o ddata ar gael i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ac mae'n deall y galw arno ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**47** Mae'r Awdurdod yn cael trafferth i wneud ei weithlu'n fwy amrywiol a chyflawni targedau cysylltiedig. Er gwaethaf llawer o fentrau i annog ymgeiswyr mae hyn yn her o hyd sydd, ynghyd â'r trosiant isel o ran staff mewn lifrau, yn cyfyngu ar gyfleoedd i recriwtio ymgeiswyr a fyddai'n cyfrannu at gyflawni'r targedau hyn. Byddai'r Awdurdod yn cael budd o werthuso effaith lawn y mentrau a gynhaliwyd ganddo hyd yn hyn er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y maes hwn yn y dyfodol.

**48** Yn ddiweddar, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid y ffordd y mae'r gwasanaeth yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Nododd yr adolygiad y bu ymgynghori helaeth i lunio Strategaeth Hyfforddi, Datblygu ac Asesu (HDA) a pholisïau cysylltiedig yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

49 Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid fod strwythurau a threfniadau ar waith i gefnogi hyfforddi, datblygu ac asesu er mwyn sicrhau bod personél yn datblygu ac yn cynnal eu cymwyseddau yn unol â mapiau rôl/swydd ddisgrifiadau. Mae'r Tîm Datblygu ac Adolygu Gweithredol (ODART), sy'n cynnwys rhanddeiliaid allanol, yn rhoi gwybodaeth amser real sy'n llywio ac yn dylanwadu ar amcanion hyfforddi yn y dyfodol.

50 Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid fod proses yr Adolygiad Datblygu Perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi ac yn mesur perfformiad yn y gweithle. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth Dysgu a Datblygu gyffredinol yn cael ei thanseilio gan anghysondeb wrth ei rhoi ar waith.

51 Mae rhai aelodau o staff wedi mynegi pryder am gyflymdra a chwmpas newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ystyried maint y newidiadau y gallai fod angen eu gwneud yn y dyfodol, bydd ymgysylltu â'r gweithlu yn her allweddol i sicrhau y caiff mentrau eu mabwysiadu'n llawn drwy gynnwys y gweithlu ac eraill.

